CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Carwyn Elias Jones** **Ward: Seiriol**
**Grŵp: Plaid Cymru**

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Fi yw Deilydd Portffolio Cysgodol Datblygu Economaidd ar gyfer Grŵp Plaid Cymru.

| **Rhwng Mai 2013 a Mawrth 2014, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | *** Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM)** |
|---|---|
| Penodiadau | 3 (37%) |
| Cyngor | 10 (76%) |
| Is-Bwyllgor Indemniadau | Dim yn cael eu cadw |
| Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 5 (71%) |
| * Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 3 cyfarfod)

Rwyf hefyd wedi eistedd ar y Bwrdd Ynys Fenter

**Gweithgareddau yn yr Etholaeth**
Llywodraethwr Ysgol yn Llanddona a Llandegfan

Dyma rai o'r materion etholaethol yr wyf wedi delio â hwy yn fy mlwyddyn gyntaf fel Cynghorydd Sir.
**Hawliau Maenoraidd** – Rhoi cymorth i nifer o bobl gyda chyngor a ffurflenni ac ymgyrchu'n llwyddiannus i fod yr ardal gyntaf yn y DU a fu'n llwyddiannus yn perswadio perchennog yr hawliau hyn i beidio â herio'r UN4s i gofrestru'r hawliau ar ei Faenor.
**Cyrbinau Isel** – Gan gydweithio gyda'r adran priffyrdd, rydym wedi llwyddo i osod dros ddwsin o gyrbinau isel yn Llandegfan ac mae hynny wedi gwneud gwahaniaeth mawr i nifer o breswylwyr yn eu bywyd bob dydd.
**Wynebu Ffyrdd a Thyllau** - Wedi pwyso am wneud gwelliannau i wyneb y ffyrdd, gyda gwaith ail-wynebu sylweddol yn cael ei wneud mewn gwahanol rannau o'r ward, yn cynnwys Llanddona, Glyn Garth tuag at Fiwmares ac yn Llangoed a hefyd nifer o dyllau'n cael eu llenwi ar hyd gwahanol ffyrdd.
**Bryn Bella Llanddona** – Gwaith priffyrdd mawr lle y buom yn awyddus iawn i symud ymlaen gyda'r gwelliannu i dro Bryn Bella yn Llanddona, ac mae'r gwaith a gwblhawyd nid yn unig yn foddhaol yn esthetaidd ond yn bwysicach na hynny, mae wedi gwella diogelwch y ffordd yn sylweddol. .
**Materion Traffig Ffyrdd Biwmares** - Gan weithio gyda'r Adran Briffyrdd rydym wedi symud ymlaen tuag at fod yn barod i baentio llinellau melyn dwbl ar hyd y ffordd a effeithiwyd a hefyd i symud y parth 30 MYA yn ei flaen. Dylai'r ddau fesur helpu i wella diogelwch y ffordd wrth ddod i mewn i Fiwmares.
**Materion Bysus** - Llwyddais i gael y cwmni bysus i newid rhai llwybrau i helpu preswylwyr sy'n byw mewn ardal llety gwarchod. Rwyf yn falch iawn hefyd o allu bod wedi sefydlu dwy arosfan bws newydd yn Llansadwrn, yn cynnwys creu dau lecyn caled i sefyll tra'n disgwyl am y gwasanaeth bws.
**Tocyn Bws Wythnosol** - Gofynnais i'r cwmni bws ailedrych ar y penderfyniad i dynnu'r opsiwn wythnosol yn ôl ac rwy'n gobeithio bod mewn sefyllfa i ailgyflwyno fersiwn newydd.
**Tai** – Rwyf wedi delio â materion tai ar ran etholwyr o ran gofal a chynnal a chadw a helpu gyda cheisiadau am dai cymdeithasol.
**Safleoedd Teithwyr** - Bûm yn pwyso am gyfres o argymhellion a basiwyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor, yn cynnwys angen i leoli safle swyddogol parhaol i deithwyr ar yr Ynys.
**Ysgol Llanddona** – Un mater y ceisiais fy ngorau i gynrychioli safbwyntiau etholwyr Llanddona arno oedd dyfodol yr Ysgol – mater sydd wedi bod yn mynd ymlaen am flynyddoedd gan achosi ansicrwydd a'r effaith y mae hynny'n ei gael ar niferoedd. Yn anffodus, y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith oedd i gau'r Ysgol.
**Bathodyn Glas** – Bu'n bleser mawr helpu preswylydd oedrannus gyda'i gais am fathodyn parcio glas.
**Trydan Llanddona** – Helpu rhai preswylwyr gyda mater cyflenwad oedd yn mynd a dod ers peth amser.
**Problemau Trydan Llandegfan a Hen Landegfan** - yn dilyn ymyrraeth fe sicrheais raglen buddsoddiad cyfalaf oedd yn golygu ailadeiladu rhannau 10.34 Km o linellau uwchben y ddaear i ddatrys y problemau a nodwyd.
**Dim Sat Nav Llandegfan** - Yn dilyn problem pan aeth lori fawr a oedd yn danfon nwyddau yn sownd am oriau ar Allt Bryn Mel, Llandegfan, ffordd oedd yn hollol anaddas i'r math hwn o gerbyd, mewn trafodaeth gyda'r Adran Priffyrdd fe lwyddwyd i godi arwyddion 'Dim Sat Nav' ar ddau ben y ffordd i osgoi cael y math hwn o ddigwyddiad eto.
**Cŵn yn Baeddu** – Rwyf hefyd wedi llwyddo i gael biniau gwastraff baw cŵn i Lansadwrn.
**Cynghorau Cymuned** - Byddaf yn rheolaidd yn mynychu cyfarfodydd o Gynghorau Cymuned Cwm Cadnant, Llangoed a Llanddona yn y ward a hefyd byddaf yn mynychu ac yn adrodd yn ôl i Gyngor Tref Biwmares.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**Parth Dim Galw Di-wahoddiad Llandegfan** – Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Safonau Masnach i sefydlu Llandegfan fel y pentref cyfan cyntaf yng Nghymru i ddod yn Barth Dim Galw Di-wahoddiad' i amddiffyn ein mwyaf bregus.

**Parth Dim Galw Di-wahoddiad Biwmares** - Hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Adran Safonau Masnach ymrwymedig a phrysur yn Llangefni i sefydlu Parth Dim Galw Di-wahoddiad i Stad Cae Mair, Biwmares.

**Grŵp Cymunedol Seiriol** - Wedi bod â rhan yn sefydlu Grŵp Cymunedol Seiriol. Mae'r grŵp rydym wedi ei sefydlu yn ymchwilio i anghenion a dymuniadau preswylwyr Ward Seiriol a sut y gellir siapio'r dyfodol.

**Ceisiadau Grant Llanfaes a Llansadwrn** - Gan weithio gyda'r preswylwyr a'r Cynghorydd Lewis Davies rydym wedi cwblhau tri chais am gyllid grant ar gyfer ffens newydd i greu lle chwarae diogel i blant yn Llanfaes, ffens a lle eistedd yn Llanddona a ffens ac ardal picnic ym mharc plant Llansadwrn. Roedd y ceisiadau i Lanfaes a Llansadwrn yn llwyddiannus.

**Siop Menter Gymdeithasol Llanfaes**
Un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous y cefais y pleser o helpu yn ei gylch gyda'r Cynghorydd Lewis Davies fu sefydlu Siop Gymunedol yn Llanfaes a dod yn aelodau o bwyllgor y siop. Yn dilyn gweithio am nifer o flynyddoedd mewn gyrfa flaenorol o fewn rheoli adwerthu i gwmni mawr, gallaf ddweud yn ddi-flewyn ar dafod bod yr hyn a gyflawnwyd ar y cyd gan y gwirfoddolwyr gyda chymorth a chefnogaeth wedi bod yn rhyfeddol ac y mae'n rhywbeth y dylai Ward Seiriol fod yn arbennig o falch ohono, a hefyd y cyfan o Ynys Môn.

**Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu nifer o sesiynau hyfforddi ers yr etholiad ac y mae'r rhain wedi helpu gyda gwahanol agweddau o'r rôl.

| **Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan CSYM):** | |
|---|---|
| Cyflwyniad i Gefnogaeth Aelod | Mai 2013 |
| Fframwaith Moesegol | Mai 2013 |
| Iaith Gymraeg / Diogelu Data / Y Wasg a'r Cyfryngau | Mai 2013 |
| Hyfforddiant Cofrestr Diddordebau | Mai 2013 |
| Trosolwg o Swyddogaethau Sgriwtini | Mehefin 2013 |
| Cyfarfod Cynllunio Corfforaethol | Mehefin 2013 |
| Sgriwtineiddio Data Perfformiad | Gorffennaf 2013 |
| Gwneud i Gyfryngau Cymdeithasol Weithio i Gynghorwyr | Medi 2013 |
| Hyfforddiant Pwyllgor Gwaith Cysgodol | Medi 2013 |
| Sesiwn 3 – Pwyllgor Gwaith Cysgodol | Ionawr 2014 |

**Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwyf wedi adeiladu perthynas weithio dda gyda fy nghyd Gynghorwyr ac yn fwyaf pwysig, gyda nifer o swyddogion sy'n gweithio'n galed yn Llangefni, lle byddaf bob amser yn ceisio canmol swyddogion am eu gwaith caled pan fo hynny'n ddyledus.

Roedd yn fraint fawr i mi gael fy ethol ac y mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn daith ddysgu serth. Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn rhai hynod bleserus ac y mae'r rôl wedi rhoi boddhad mawr i mi allu helpu cymaint o fewn Ward Seiriol gyda'u materion. Nid wyf yn difaru dim am roi fy hun ymlaen ar gyfer y rôl ac rwyf yn edrych ymlaen am yr ail flwyddyn gyda brwdfrydedd ac yn y gred y gallwn wneud mwy o gynnydd a helpu mwy o bobl.

**Y Cynghorydd Carwyn Jones** **Ebrill 2014**